# Adroddiad Arolygu

**Clwb Mwd**

**Festri St. Lleian**
**Heol yr Eglwys**
**Gorslas**
**Llanelli**
**SA14 7NF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Clwb Mwd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Tanwen Randell-Davies |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hapus ac wedi setlo ar y cyfan. Maent yn gwybod y caiff eu hanghenion a'u dewisiadau eu hystyried. Mae rhyngweithio'r plant â'r staff yn gadarnhaol, ac mae llawer o'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, gydag ambell eithriad. Mae llawer o'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae ac yn dangos sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn iach. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau diogelu bob amser yn effeithiol yn ymarferol. Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol, hwyliog a charedig â'r plant. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg goruchwylio a'r cymarebau rhwng y staff a'r plant, ni chaiff rhai polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn llawn bob amser i reoli rhyngweithio ac ymddygiad y plant yn effeithiol.

Mae gan yr arweinwyr rai trefniadau i wneud yr amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y plant. Fodd bynnag, ni chaiff yr holl risgiau a pheryglon amgylcheddol eu dileu cyn belled ag y bo'n bosibl. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad wedi'i awyru'n dda ac yn hygyrch. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau i leihau'r risg o heintiau yn lledaenu yn y toiledau yn effeithiol. Mae gan yr arweinwyr amrywiaeth o adnoddau digonol ac maent yn defnyddio'r ardal leol i ddarparu profiadau i'r plant yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth o adnoddau ar gyfer rhai oedrannau a diddordebau'n gyfyngedig.

Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod gofynion rheoliadol, polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori'n ddigonol i ddiogelu'r plant. Nid ydynt wedi sicrhau eu bod yn bodloni amodau'r cofrestriad. Maent wedi methu â chwblhau'r gwiriadau addasrwydd staff ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn effeithiol.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Mae'r plant hŷn yn cyrraedd yn hamddenol ac yn teimlo'n hyderus wrth ymgysylltu â'r arweinwyr a'r staff. Fodd bynnag, wrth gyrraedd, roedd angen cysur ar lawer o'r plant iau i setlo yn eu hamgylchedd. Mae'r plant yn hyderus wrth helpu eu hunain i'r adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dan do ac awyr agored yn ddidrafferth ac yn hyderus.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn gwybod y caiff eu hanghenion a'u dewisiadau eu hystyried a'u bod yn cael eu parchu gan y staff. Er enghraifft, mae'r plant yn eistedd lle y mynnant yn ystod amser cinio a byrbryd, a gallant ddewis bwyta pan fyddant yn barod. Mae'r plant yn hyderus wrth ofyn am adnoddau o'u dewis os nad ydynt ar gael yn hawdd, er enghraifft, gwnaethant ofyn am bapur i liwio, a gwnaeth y staff weithredu ar hyn.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ar y cyfan. Maent yn rhannu adnoddau fel doliau a chreonau yn llwyddiannus. Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Maent yn sgwrsio am eu teuluoedd a'u ffrindiau wrth chwarae ac wrth fwyta. Mae'r plant iau yn rhoi maldod i aelodau o'r staff ac yn ymgysylltu â nhw pan fydd angen cymorth arnynt i gwblhau jig-so, a phan fydd angen cymorth arnynt i gwblhau tasgau a gweithgareddau. Fodd bynnag, mae'r diffyg goruchwylio ac adnoddau digonol i ddiddanu'r plant hŷn yn arwain at rai o'r plant yn gwrthdaro ac yn ofidus ar adegau.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae. Mae'r mwyafrif o'r plant yn mwynhau chwarae gyda'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn chwarae gyda'r teganau ceir, doliau a phramiau gan ddefnyddio eu dychymyg. Yn yr awyr agored, maent yn chwarae gyda'r gegin fwd, bagiau ffa, cylchoedd a pheli. Dywedodd y plant hŷn wrthym eu bod yn mwynhau chwarae yn y parc. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd ddweud wrthym pan nad ydynt yn mynd i'r parc, maent yn chwarae gemau ar eu ffonau ac yn tynnu lluniau o'i gilydd ac yn eu hanfon at eu ffrindiau. Oherwydd y tywydd gwlyb ar ddiwrnod yr arolygiad, ni allai'r plant fynd i'r parc.

Mae'r plant yn dangos annibyniaeth wrth ddefnyddio adnoddau a rheoli eu hanghenion hylendid personol.

## **Gofal** a Datblygiad **Digonol**

Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn iach. Maent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd, ac mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid yn briodol wrth iddynt baratoi tost yng nghanol y bore. Fodd bynnag, mae'r staff yn rhoi un tywel i'r plant ei rannu wrth iddynt sychu eu dwylo ac nid oedd tyweli unigol ar gael. Nid oedd gan y plant yn cael cyfle i olchi eu dwylo â sebon a dŵr cyn amser cinio; cafodd hylif diheintio dwylo ei ddarparu yn lle hynny. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant bob amser yn gallu cael gafael ar eu poteli dŵr personol. Maent yn gwbl ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu os bydd pryder yn ymwneud â lles plentyn. Fodd bynnag, gan nad yw'r arweinwyr yn darparu digon o staff ar bob achlysur ac nad yw'r cymarebau rhwng yr oedolion a'r plant bob amser yn cael eu bodloni: mae hyn yn effeithio ar y plant. Rhoddodd yr arweinwyr a'r staff wybod i AGC bod nifer addas o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant ar gymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd. Caiff digwyddiadau, damweiniau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi.

Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol, hwyliog a charedig â'r plant. Maent yn sicrhau bod y plant sy'n cyrraedd y lleoliad yn cael cysur ac maent yn llwyddo i'w setlo wrth dynnu eu sylw mewn ffordd addas, ac yn ymwybodol o ddewisiadau'r plant. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant cymaint â phosibl. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg goruchwylio a'r cymarebau rhwng y staff a'r plant, ni chaiff y polisïau a'r gweithdrefnau rheoli ymddygiad eu rhoi ar waith yn llawn bob amser.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn llwyddo i ddathlu cyflawniadau'r plant. Er enghraifft, maent yn dathlu bod y plant wedi llwyddo i gwblhau jig-so. Mae'r staff yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a chaiff ei hannog drwy chwarae a thrafodaethau. Maent yn cynnig amgylchedd chwarae rhydd i'r plant o ardal dan do i ardal awyr agored y safle.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r arweinwyr yn gwneud rhai addasiadau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod y giatiau wedi'u cloi, ac maent yn dileu risgiau yn yr ardal awyr agored â ffens dros dro. Cynhelir gwiriadau cynnal a chadw amgylcheddol yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff yr holl risgiau amgylcheddol eu dileu, ac nid yw'r asesiadau risg yn nodi nac yn dileu risgiau posibl i iechyd a diogelwch y plant. Er enghraifft, nid ydynt yn cynnwys y risgiau i'r plant yn y lleoliad, yr ardal awyr agored na'r gofynion goruchwylio a risgiau yn y parc neu gerllaw. Wrth gyrraedd y lleoliad, nid oedd yr ardal doiledau yn lân: roedd tywel budr, mop a bwced, cemegau peryglus a sgriwdreifer o fewn cyrraedd y plant. Ar ben hynny, nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal ers i'r lleoliad gael ei sefydlu ac nid oes cofnod clir o bresenoldeb y plant bob amser ar gael pe bai argyfwng. Mae hyn yn effeithio ar y plant ac wedi ei nodi fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad wedi'i awyru'n dda ac yn hygyrch. Mae'r lleoliad mewn festri capel. Mae'r ardal dan do yn fawr ac mae'r gofod yn rhesymol yn yr awyr agored. Mae toiledau ar gael â sebon hylif. Fodd bynnag, gan fod y darparwr wedi gweithredu dros y niferoedd cofrestredig ar achlysuron, nid oes nifer digonol o doiledau ar gyfer y nifer o blant sy'n mynychu bob amser.

Mae gan yr arweinwyr amrywiaeth ddigonol o adnoddau sy'n sicrhau bod y plant sydd â diddordeb mewn chwarae byd bach a chwarae rôl yn ymddiddori'n effeithiol yn eu chwarae. Ceir posau, pensiliau a chreonau yn ogystal ag adnoddau chwarae corfforol, gan gynnwys castell neidio. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r parc cyfagos pan fydd y tywydd yn caniatáu. Fodd bynnag, mae'r adnoddau i'r plant hŷn ac o ddiddordeb i'r plant iau yn gyfyngedig.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Gwael**

Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod gofynion rheoliadol, polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori'n ddigonol i ddiogelu'r plant, ac mae hyn wedi arwain at ganlyniadau gwael i'r plant.

Mae'r arweinwyr wedi addasu polisïau a gweithdrefnau mewn egwyddor o sefydliad trydydd parti, ond nid yw'n aelod o'r sefydliad. Nid ydynt wedi eu hadolygu a'u teilwra'n bwrpasol i sicrhau bod y polisïau yn gwbl berthnasol i'w gwasanaeth. Nid oes llofnodion na dyddiadau ar y rhain, ac nid oes gan y gweithdrefnau diogelu swyddog diogelu dynodedig penodol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion weithiau yn adlewyrchu presenoldeb y plant a'r staff sy'n bresennol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu cofnodi'n ddigonol nac yn gywir. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd nifer y plant a oedd yn bresennol wedi'i adlewyrchu'n gywir yn y cofnodion, a gafodd ei addasu wedyn gan yr arweinwyr, ar ôl iddynt gael eu hannog. Nid yw nifer y gymhareb staff i blant bob amser yn cael ei gyrraedd ac felly nid yw anghenion a diogelwch y plant bob amser yn cael eu diwallu. Nid yw'r staff yn gallu diogelu a goruchwylio'r plant bob amser yn ddigonol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd yr holl blant yn cael eu goruchwylio'n addas oherwydd y diffyg cymarebau rhwng y staff a'r plant. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Caiff contractau eu llofnodi gan y rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r holl ganiatadau ar waith ar gyfer teithiau, ac nid yw'n caniatáu i'r plant chwarae â gemau ar-lein a thynnu lluniau. Mae gan yr arweinwyr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i AGC am newidiadau a digwyddiadau o bwys. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar, yn ystod yr arolygiad, y maent wedi gwneud addasiadau i'r datganiad o ddiben, sydd bellach yn adlewyrchu'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg ar hyn o bryd. Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau eu bod yn bodloni amodau eu cofrestriad. Maent wedi mynd dros eu niferoedd cofrestredig. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau eu bod yn cyflogi staff cymwysedig ac mae nifer addas o'r staff wedi bodloni'r gofynion hyfforddiant gorfodol, sy'n gyfredol. Fodd bynnag, nid oes gan berson perthnasol y cymhwyster gweithiwr chwarae gofynnol ac nid yw wedi cael hyfforddiant diogelu addas. Mae gwiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer un aelod o'r staff sy'n rhedeg y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd wedi'u casglu ar gyfer yr holl staff eraill cyn iddynt ddechrau gweithio gyda'r plant yn y lleoliad. Cafodd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff eu casglu cyn iddynt gael eu cyflogi. Nid oedd y manylion Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rhai aelodau o'r staff yn gywir a heb gael eu casglu. Gwnaed cais amdanynt yn ystod yr arolygiad. Mae hyn wedi peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Ers yr arolygiad, mae'r arweinwyr wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer aelodau o'r staff. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn

gweithio gyda'i gilydd fel teulu. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael eu cefnogi gan eu harweinwyr, eu bod yn cael eu goruchwylio, ac mae hyfforddiant pellach yn mynd rhagddo.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarn. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ap webform i gyfathrebu â'r rhieni ynglŷn â'r plant a threfniadau'r lleoliad. Maent yn teimlo bod eu plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir a bod anghenion eu plant yn cael eu diwallu. Mae'r rhieni yn teimlo bod eu plant yn cael amser ardderchog gyda staff gofalgar iawn sy'n mynd y tu hwnt i sicrhau bod eu plant yn cael amser da.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd ar waith cyn i unrhyw un ddechrau gweithio gyda'r plant yn y lleoliad a sicrhau bod y dogfennau ar waith i'w harolygu. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod yr holl gofnodion, y cymarebau rhwng y staff a'r plant, a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r plant. | Newydd |
| 15 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau ei fod bob amser yn gweithredu yn unol â'i Ddatganiad o Ddiben ac amodau'r cofrestriad. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 38 | Sicrhau y caiff ymarferion tân eu rhoi ar waith a'u cynnal yn rheolaidd | Newydd |
| 25 | Sicrhau bod yr holl beryglon posibl a diogelwch yn cael eu nodi a'u dileu cymaint â phosibl. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae ar gyfer pob oedran a diddordebau'r holl blant. |
| Safon 14 - Trefniadaeth | Sicrhau bod yr holl bolisïau yn dangos pwy sy'n gyfrifol am strwythurau sefydliadol y lleoliad yn glir, gan gynnwys cwynion ac arweinwyr diogelu. |
| Safon 14 - Trefniadaeth | Sicrhau bod cymwysterau'r arweinwyr yn bodloni gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod yr holl ganiatadau perthnasol yn cael eu casglu a'u llofnodi gan rieni'r plant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/11/2024